**PWYLLGOR CRAFFU ADDYSG AC ECONOMI**
**12/02/26**

**Presenoldeb:**

**Y Cynghorwyr:** Y Cynghorydd Cai Larsen (Cadeirydd)
Y Cynghorydd Rhys Tudur (Is-gadeirydd)

Y Cynghorwyr:- Beca Brown, Jina Gwyrfai, Dawn Lynne Jones, Elwyn Jones, Gareth Tudor Jones, Gwilym Jones, Beth Lawton, Dewi Owen, Geraint Parry, John Pughe Roberts, Huw Llwyd Rowlands, Dyfrig Siencyn, Gwynfor Owen a Sian Williams.

**Aelodau Cyfetholedig:** Sharon Roberts (Cynrychiolydd Rhieni / Llywodraethwyr Arfon) a Gweno Glyn Williams (Cynrychiolydd Rhieni / Llywodraethwyr Dwyfor).

**Swyddogion yn bresennol:** Bethan Adams (Ymgynghorydd Craffu) a Jasmine Jones (Swyddog Gwasanaethau Democratiaeth).

**Yn bresennol ar gyfer eitem 5 -** Cynghorydd Nia Jeffreys (Arweinydd y Cyngor), Hedd Vaughan-Evans (Pennaeth Gweithrediadau Uchelgais Gogledd Cymru), Elliw Hughes (Rheolwr Rhaglen Cynllun Twf, Uchelgais Gogledd Cymru) a Sioned Williams (Pennaeth Economi a Chymuned).

**Yn bresennol ar gyfer eitem 6 -** Cynghorydd Medwyn Hughes (Aelod Cabinet Economi a Chymuned), Sioned Williams (Pennaeth Economi a Chymuned), Roland Evans (Pennaeth Cynorthwyol Diwylliant) a Sian Jones (Rheolwr Twristiaeth, Marchnata a Digwyddiadau).

**1. YMDDIHEURIADAU**

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan y Cynghorydd Richard Glyn Roberts a Colette Owen (Yr Eglwys Gatholig).

**2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL**

Datganodd Sharon Roberts (Cynrychiolydd Rhieni / Llywodraethwyr Arfon) fuddiant personol yn Eitem 5 a 6 ar y rhaglen. Roedd yr aelod o’r farn ei fod yn fuddiant sy’n rhagfarnu a gadawodd y cyfarfod yn ystod y drafodaeth ar yr eitem.

**3. MATERION BRYS**

Dim i’w nodi.

**4. COFNODION**

Llofnododd y Cadeirydd gofnodion y cyfarfod blaenorol o’r pwyllgor hwn a gynhaliwyd ar 11 Rhagfyr 2025 fel rhai cywir.

**5. BUDD Y CYNLLUN TWF I WYNEDD**

Cyflwynodd Arweinydd y Cyngor yr adroddiad gan nodi, yn dilyn pryderon a godwyd yng nghyfarfod y Pwyllgor ym mis Mehefin wrth graffu ar adroddiad perfformiad yr Aelod Cabinet Economi a Chymuned, y bwriedid rhoi trosolwg i’r Pwyllgor o waith y Cynllun Twf a’r budd a ddeilliai ohono i Wynedd. Eglurwyd bod y Cynllun Twf yn fuddsoddiad rhanbarthol sylweddol a luniwyd er mwyn cryfhau economi Gogledd Cymru, creu swyddi, datblygu sgiliau a chefnogi busnesau.

Nodwyd bod y rhaglen yn cynnwys nifer o brosiectau ar draws meysydd megis arloesi, ynni, digidol, twristiaeth a datblygu'r gweithlu. Ymhelaethwyd bod yr adroddiad gerbron yn crynhoi'r cynnydd a wnaed gyda'r prosiectau perthnasol ynghyd ag uchafbwyntiau chwarter dau, sef y cyfnod rhwng Mehefin a Medi 2025. Cadarnhawyd y byddai diweddariad yn cael ei roi ynghylch y cynlluniau ar gyfer datblygu safle Trawsfynydd.

Tynnwyd sylw at y ffaith fod y cyfarfod hwn yn amserol gan fod y Cabinet wedi cefnogi cynllun busnes amlinellol ar gyfer sefydlu parc gwyddoniaeth yn Nhrawsfynydd a datblygu canolfan arloesedd, sgiliau a busnes yno. Gwahoddwyd y Pwyllgor i ystyried yr wybodaeth, craffu ar y cynnydd a'r trefniadau a chynnig sylwadau neu argymhellion er mwyn helpu i sicrhau bod y Cynllun Twf yn cyflawni'r manteision mwyaf posibl i gymunedau a phobl Gwynedd.

Trosglwyddwyd i Bennaeth Gweithrediadau Uchelgais Gogledd Cymru, gan ddiolch am y cyfle i gyflwyno gwaith y Cynllun Twf. Rhoddwyd cyflwyniad ar brif uchafbwyntiau yn ystod y flwyddyn, gan gynnwys rhai o'r datblygiadau diweddaraf ers rhannu adroddiad chwarter dau.

Nodwyd mai nod Uchelgais Gogledd Cymru yw datblygu economi'r rhanbarth mewn modd cynaliadwy er mwyn creu cyfleoedd i bobl, cymunedau a busnesau. Eglurwyd mai rhaglen fuddsoddi ranbarthol yw'r Cynllun Twf, gyda £240 miliwn o gyllid gan y Llywodraeth a tharged o gyflawni dros £1 biliwn o fuddsoddiad yn y rhanbarth erbyn 2036 ynghyd â chreu hyd at 4,200 o swyddi newydd. Nodwyd bod y Cynllun Twf yn cael ei weithredu ar draws pum rhaglen, sef arloesi mewn gweithgynhyrchu gwerth uchel, cysylltedd digidol, bwyd-amaeth a thwristiaeth, tir ac eiddo ac ynni carbon isel.

Rhoddwyd trosolwg o'r prif uchafbwyntiau hyd yma, sef:

- Trosglwyddwyd y Cynllun Twf a'r tîm rheoli portffolio i'r Cyd-bwyllgor Corfforedig ar 1 Ebrill 2025.
- Bod rhestr wrth gefn wedi ei chreu ar gyfer 17 o brosiectau newydd ym mis Mai, ac bod y Gronfa Ynni Glân wedi ei lansio ym mis Gorffennaf.
- Bod Cytundeb Cyd-fenter Parc Bryn Cegin gyda Llywodraeth Cymru wedi ei gwblhau ym mis Awst.
- Bod yr Is-bwyllgor Lles Economaidd wedi cymeradwyo achosion busnes ar gyfer Prosiect Prince, Prosiect Gweithgynhyrchu a Gallu Busnes Cymdeithas 5.0, Safleoedd Gogledd Môn a Phorthladd Rhydd yng nghyfarfod mis Hydref.
- Ym mis Tachwedd, adeilad CanfodAu wedi ei agor yn swyddogol ynghyd â lansio'r prosiect Academi Croeso.
- Bod yr Is-bwyllgor wedi cymeradwyo achosion busnes ar gyfer Porthladd Mostyn, Ysgol Fusnes Albert Gubay a Phrosiect Gwella Rheilffyrdd Padeswood yng nghyfarfod mis Rhagfyr.
- Bod dau Ymgynghorydd Anweithredol wedi eu penodi i'r Cyd-bwyllgor Corfforedig ym mis Ionawr.

Nodwyd bod cynnydd da wedi ei wneud dros y flwyddyn hyd yma. Cyfeiriwyd at y sefyllfa ddiweddaraf ar ddiwedd chwarter tri, gan nodi fod adroddiad chwarter tri newydd gael ei gymeradwyo gan yr is-bwyllgor. Eglurwyd bod chwe phrosiect bellach yn weithredol, deg arall wedi eu cymeradwyo ond ddim eto yn weithredol, a saith yn datblygu achosion busnes, gyda chwech o'r rhain eisoes wedi derbyn cymeradwyaeth amlinellol gan yr is-bwyllgor. Nodwyd bod un prosiect yn parhau dan adolygiad, sef yr hwb hydrogen yng Nghaergybi, a bod pymtheg prosiect ar y rhestr wrth gefn yn cystadlu am oddeutu £62 miliwn o gyllid heb ei ddyrannu hyd yma.

O ran y buddion a welwyd hyd yma, nodwyd bod 49 o swyddi newydd wedi eu creu ynghyd â 49 o swyddi adeiladu ychwanegol. Cydnabuwyd bod y niferoedd hyn yn isel, ond eglurwyd bod y Cynllun Twf wedi wynebu oedi a heriau sylweddol ar ei ddechrau, gan gynnwys Covid, cynnydd mewn costau, problemau cynllunio a newidiadau ym mholisïau Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU, a oedd wedi cael effaith ar y portffolio gwreiddiol. Pwysleisiwyd, fodd bynnag, bod cynnydd sylweddol wedi bod dros y flwyddyn ddiwethaf yn nifer y prosiectau a gymeradwywyd, a byddai hynny dros y blynyddoedd nesaf yn trosi i gynnydd yn nifer y swyddi a grëir. Nodwyd ymhellach, erbyn diwedd chwarter tri, y byddai ychydig dros £29 miliwn wedi ei fuddsoddi yn y rhanbarth, gyda £26 miliwn o hynny yn fuddsoddiad uniongyrchol y Cynllun Twf.

Gan ymateb i ddiddordeb penodol y Pwyllgor mewn buddion lleol i Wynedd, eglurwyd bod Uchelgais Gogledd Cymru yn ystyried pob prosiect o fewn y Cynllun Twf fel prosiect rhanbarthol sy'n cyfrannu at y weledigaeth ranbarthol a'r targedau cyffredinol. Cydnabuwyd, fodd bynnag, ddealltwriaeth lawn o ddiddordeb yr Aelodau mewn buddion lleol. Nodwyd bod prosiectau'r Cynllun Twf yn creu buddion lleol mewn pedair prif ffordd, sef drwy fuddsoddiad uniongyrchol, drwy greu swyddi lleol a rhanbarthol, drwy gyfleoedd yn y gadwyn gyflenwi, a thrwy fuddion cymdeithasol a buddion cymunedol a sicrheir drwy'r prosiectau ac yn arbennig drwy'r broses gaffael.

Rhoddwyd trosolwg o'r 7 prosiect yng Ngwynedd a oedd naill ai wedi derbyn cymeradwyaeth amlinellol neu gymeradwyaeth derfynol. Nodwyd bod y rhain yn cynnwys:

- Canolfan Prosesu Signalau Digidol (£3 miliwn) a'r Ganolfan Biotechnoleg Amgylcheddol (£2 miliwn) ym Mhrifysgol Bangor,
- Prosiect Ysgol Fusnes Albert Gubay (£7.3 miliwn),
- Prosiect Anturiaethau Cyfrifol (£5.6 miliwn),
- Academi Croeso Cymru (£2 filiwn),
- Hwb Economi Wledig Glynllifon (£11.8 miliwn) gyda Grŵp Llandrillo Menai, a
- Prosiect Parc Bryn Cegin (£5.9 miliwn).

Eglurwyd bod y prosiectau hyn yn cynrychioli cyfanswm buddsoddiad o £38.5 miliwn o arian y Cynllun Twf yng Ngwynedd, gyda chyfanswm buddsoddiad o bron i £72 miliwn wrth gynnwys ffynonellau cyllidol eraill. Nodwyd bod £5.5 miliwn o'r arian hwnnw eisoes wedi ei fuddsoddi yn y Ganolfan Prosesu Signalau Digidol, y Ganolfan Biotechnoleg Amgylcheddol ac ym Mhortmeirion drwy brosiect Academi Croeso Cymru. Nodwyd bod y prosiectau hyn yn ceisio creu 700 o swyddi dros y deng mlynedd nesaf yn y rhanbarth, gyda'r mwyafrif o'r rhain yn debygol o fod yng Ngwynedd.

Eglurwyd bod pedwar prosiect neu gronfa ranbarthol arall yn y meysydd ynni a digidol, naill ai'n fyw erbyn hyn neu ar fin mynd yn fyw, yn ceisio buddsoddi dros £51 miliwn ar draws y rhanbarth, ac y byddid yn gweithio gyda busnesau a chymunedau yng Ngwynedd er mwyn ceisio sicrhau buddsoddiad fel rhan o'r cronfeydd yma.

Nodwyd bod pedwar prosiect o fewn Gwynedd ar y rhestr wrth gefn yn cystadlu am y cyllid sydd heb ei glustnodi hyd yma, sef gwedd dau Prosiect Parc Bryn Cegin gyda Llywodraeth Cymru, Canolfan Arloesedd, Busnes a Sgiliau Trawsfynydd, Hwb Iechyd Bangor a phrosiect 'Quarry Battery'.

Cadarnhawyd y gallai rhai o'r prosiectau ar y rhestr wrth gefn, megis cynllun Trawsfynydd, fod yn destun adroddiad ar wahân i'w graffu'n fanylach maes o law wrth i'r manylion aeddfedu a symud drwy brosesau Uchelgais Gogledd Cymru.

Yn ystod y drafodaeth, cyflwynwyd y sylwadau a ganlyn:-

Cwestiynwyd ynghylch y trefniadau ar gyfer blaenoriaethu prosiectau a pha broses oedd mewn lle i benderfynu pa brosiectau oedd yn cael blaenoriaeth dros eraill. Mewn ymateb, nodwyd:-

- Bod nifer o brosesau wedi eu cynnal dros y blynyddoedd i benodi prosiectau ar gyfer y Cynllun Twf, gan gynnwys proses yn gynharach yn y flwyddyn i benodi prosiectau ar y rhestr wrth gefn.

- Bod proses drylwyr o ddadansoddi gwybodaeth am brosiectau yn cael ei chynnal.

- Bod y tri phrif ffactor oedd yn sail i'r penderfyniadau yn cynnwys cyfraniad y prosiectau tuag at y targedau o ran creu swyddi a sicrhau buddsoddiad i'r rhanbarth, y buddion ehangach y gallai'r prosiectau eu cynnig i'r rhanbarth, a lefel aeddfedrwydd a pharodrwydd y prosiectau i symud ymlaen i gyflawni.

- Bod y ffactor olaf hwn yn arbennig o bwysig o ystyried yr oedi a fu yn ystod pum mlynedd gyntaf y Cynllun Twf a'r heriau a wynebwyd gyda rhai prosiectau.

- Mai 15 mlynedd oedd y cyfnod gweithredu yn wreiddiol, ond mai 10 mlynedd oedd ar gael bellach i gyflawni'r prosiectau a sicrhau buddion y Cynllun Twf.

Cwestiynwyd am weledigaeth hirdymor y Cynllun Twf. Mewn ymateb, nodwyd bod gweledigaeth glir i dyfu'r economi mewn modd cynaliadwy a chreu cyfleoedd ar draws y rhanbarth a'r sectorau. Pwysleisiwyd mai un ffynhonnell ariannu yn unig oedd y Cynllun Twf o fewn system ariannu fwy cymhleth erbyn hyn, ac y byddai'n bwysig sicrhau bod ffrydiau ariannu amrywiol yn cydweithio yn hytrach na chystadlu yn erbyn ei gilydd. Pwysleisiwyd bod cyfle sylweddol yn bodoli yng Ngogledd Cymru dros y blynyddoedd nesaf i fanteisio ar y Cynllun Twf, y prosiect Porthladd Rhydd, y Parth Buddsoddi yn Sir y Fflint a Wrecsam, y Parthau Twf Deallusrwydd Artiffisial, a datblygiadau posibl yn Wylfa. Nodwyd mai rôl bwysig Uchelgais Gogledd Cymru fel corff rhanbarthol oedd sicrhau bod y buddsoddiadau hyn yn ychwanegu gwerth at ei gilydd ac yn cyflawni ar draws y rhanbarth.

Cwestiynwyd faint o arian a gyfrannwyd gan y Cyngor tuag at wireddu'r Cynllun Twf. Mewn ymateb, nododd Pennaeth Economi a Chymuned nad oedd ffigyrau penodol wrth law, ond y gellid eu darparu yn dilyn y cyfarfod. Eglurwyd bod pob cyngor a phartner o fewn Uchelgais Gogledd Cymru, gan gynnwys y prifysgolion a'r colegau, yn cyfrannu'n flynyddol at gostau rhedeg y rhaglen, sef yr adnoddau a'r staff o fewn Uchelgais Gogledd Cymru sy'n gweithio ar y Cynllun Twf. Ymhelaethwyd bod partneriaid hefyd yn cyfrannu tuag at gostau benthyca yn y dyfodol, gan y byddai angen benthyca yn y tymor byr er mwyn galluogi prosiectau i symud ymlaen cyn i gyllid y ddwy Lywodraeth lifo i mewn dros y cyfnod.

Nododd Arweinydd y Cyngor fod tanwariant wedi ei nodi mewn cyfarfod diweddar o'r Bwrdd Uchelgais Gogledd Cymru. Mynegwyd siom ynghylch hynny, yn enwedig ar adeg pan oedd cynghorau ac adrannau eraill yn wynebu gorwariant a phwysau sylweddol ar gyllidebau llywodraeth leol. Mynegwyd siom bersonol, ac ar ran Cynghorwyr Gwynedd ac aelodau'r Pwyllgor, fod cynllun Trawsfynydd wedi llithro i'r rhestr wrth gefn. Mynegwyd y farn y dylai'r prosiect hwnnw fod yn flaenoriaeth i Wynedd, yn benodol i Dde Meirionnydd.

Mewn ymateb, nodwyd mai dim ond cyllid cyfalaf oedd ar gael drwy'r Cynllun Twf, ac nad oedd unrhyw arian ar gael ar gyfer gweithredu a rhedeg y cynlluniau. Ymhelaethwyd mai dyna pam yr oedd angen i'r partneriaid fuddsoddi i sefydlu'r swyddfa rhaglen yn y lle cyntaf er mwyn gallu datblygu'r cynlluniau. Cadarnhawyd y byddai manylion pellach yn cael eu rhannu gydag aelodau'r Pwyllgor maes o law ynglŷn a Trawsfynydd.

Cyflwynwyd sylwadau gan aelod yn seiliedig ar brofiad o fod yn rhan o'r Bwrdd Uchelgais Gogledd Cymru, gan nodi mai partneriaeth rhwng y chwe sir, y colegau a'r sector preifat oedd y Bwrdd, a'i fod wedi ei sefydlu flynyddoedd yn ôl i fanteisio ar gynllun Llywodraeth y DU gyda chyfraniad Llywodraeth Cymru wedi hynny. Nodwyd bod taith hir a heriol wedi bod i'r Cynllun Twf, a bod cynnal partneriaethau o'r fath yn her sylweddol, yn enwedig o gofio'r angen i gynnal partneriaeth rhwng y ddwy Lywodraeth.

Tynnwyd sylw at y ffaith fod y ddwy Lywodraeth wedi cyflwyno cynlluniau oedd yn croesdorri â chynlluniau'r Bwrdd Uchelgais, megis y Parth Buddsoddi yn Sir y Fflint a Wrecsam a'r datblygiadau yn Wylfa, nad oeddent yn bodoli ar ddechrau'r daith. Mynegwyd y farn fod hyn yn drysu'r darlun ac yn ei gwneud yn anodd i'r Bwrdd sefydlu ei hun fel corff sydd yn gallu gweithredu er lles pob sir yng Ngogledd Cymru.

Nodwyd mai mater i Gynghorwyr a gwleidyddion oedd ystyried y weledigaeth i'r dyfodol, yn enwedig o ystyried etholiadau'r Senedd. Cyfeiriwyd at drafodaethau ynghylch creu corff datblygu economaidd tebyg i'r cyn Awdurdod Datblygu Cymru ar draws Gogledd Cymru a'r posibilrwydd o sefydlu rhyw fath o gorff i hybu'r economi wledig. Mynegwyd y farn ei bod yn bwysig ystyried pa negeseuon y dylid eu cyfleu i Lywodraeth newydd yng Nghaerdydd, pwy bynnag fyddai mewn grym.

Nodwyd bod yr ymyriadau allanol hyn yn peri'r her fwyaf i waith y Bwrdd Uchelgais, a bod tensiwn naturiol yn bodoli gan fod pawb yn ceisio cael y gorau i'w sir eu hunain. Mynegwyd y farn fod rhai siroedd, oherwydd yr ymyriadau allanol, wedi cael cyfran dda o'r buddion hyd yma, ac y byddai angen i Wynedd fod yn barod i sicrhau'r gorau o'r bartneriaeth. Nodwyd mai partneriaeth bwysig oedd hon, a mynegwyd y farn y dylai partneriaeth Uchelgais Gogledd Cymru fod â chyllideb gan y ddwy Lywodraeth heb unrhyw ffrwyn arni, fel y gallai wneud penderfyniadau ei hun dros y rhanbarth gan ddatganoli grym i'r rhanbarth.

Mynegwyd siom gan aelod ynghylch yr amser hir a gymerwyd i'r prosiectau ddod yn weithredol a dwyn ffrwyth. Cyfeiriwyd yn benodol at gynlluniau ar gyfer Gwynedd, gan nodi nad oedd dim o gwbl i dde Gwynedd. Gofynnwyd am roi sylw teilwng i Drawsfynydd. Nodwyd siom fod y cynllun ar y rhestr wrth gefn a phwysleisiwyd ei bwysigrwydd i sicrhau buddion i dde Gwynedd. Holwyd ynghylch y nifer isel iawn o swyddi a grëwyd hyd yma, gan ofyn faint o'r rheini oedd wedi eu creu o fewn Uchelgais Gogledd Cymru a'r tîm rheoli ei hun. Mewn ymateb, nodwyd:-

- Bod y siom ynghylch cyflymder datblygu rhai prosiectau yn cael ei chydnabod.
- Bod teimlad fod y sefyllfa wedi troi cornel yn ystod y 12 mis diwethaf ac y gobeithir y byddai'r darlun yn fwy cadarnhaol y tro nesaf y byddai adroddiad yn cael ei gyflwyno.
- O ran y 49 swydd a grëwyd, dim ond saith o'r rheini oedd yn swyddi o fewn Uchelgais Gogledd Cymru, gan mai dim ond swyddi parhaol a oedd yn cael eu cynnwys yn y ffigyrau swyddogol.
- Bod mwy o swyddi o fewn Uchelgais Gogledd Cymru, ond bod nifer o'r rheini yn swyddi dros dro gan nad oedd gan y Cyd-bwyllgor Corfforedig gyllideb ganolog gan Lywodraeth Cymru.

Nododd Arweinydd y Cyngor ei bod wedi codi materion yn ymwneud â swyddi yng nghyfarfodydd y Bwrdd, a'i fod wedi derbyn sylw. Mynegwyd y farn bod angen mireinio'r ffigwr swyddi ymhellach, gan ofyn a oeddent yn swyddi llawn amser, yn swyddi parhaol, ac ar ba lefel cyflog yr oeddent. Nodwyd, o ran Trawsfynydd, fod cefnogaeth i'r gwaith yno yn werthfawr iawn, a mynegwyd bod penderfyniad y Cabinet yn gam cadarnhaol. Mynegwyd y farn fod buddsoddiad y Cyngor yn y fan honno yn arloesol ac yn gyfle i Wynedd gymryd y camau i'w dwylo ei hun yn hytrach nag aros i Lywodraeth y DU benderfynu ar faterion dros y rhanbarth. Nodwyd bod cefnogaeth y Pwyllgor yn gymorth i dynnu'r ffocws oddi ar goridor yr A55 ac i sicrhau buddion i dde Gwynedd.

Mynegwyd gwerthfawrogiad am y sylwadau a wnaed gan Arweinydd y Cyngor ynghylch ymdrechion i ymladd dros Wynedd, ond nodwyd anfodlonrwydd gyda'r ymatebion a roddwyd ynghylch blaenoriaethu, gan bwysleisio nad bai personol oedd hyn ond yn hytrach yn adlewyrchiad o'r cylch gorchwyl yr oedd y Llywodraeth wedi ei osod. Tynnwyd sylw at y ffaith fod blaenoriaethu prosiectau ar sail creu swyddi yn golygu bod

prosiectau yn ne'r sir o dan anfantais, gan na fyddai byth yn realistig iddynt greu cannoedd neu filoedd o swyddi.

Mynegwyd y farn y gallai 10 neu 15 swydd yn wardiau gwledig fel Harlech, Llanbedr neu ardaloedd eraill fod yr un mor werthfawr i'r economi leol ac yn gymesur a miloedd o swyddi yn Wrecsam. Nodwyd felly ei bod yn anodd gweld budd uniongyrchol i'r ardaloedd hynny o glywed am fuddsoddiadau mawr ar hyd coridor yr A55 neu yn Sir y Fflint a Wrecsam. Cyfeiriwyd at fuddsoddiadau sylweddol eraill gan Lywodraeth Cymru mewn system drafnidiaeth well yn y dwyrain, a mynegwyd y farn y byddai'r un math o ystyriaeth yn ddyledus i linellau trafnidiaeth rhwng Wrecsam, Harlech a Thywyn.

Mynegwyd siom fod Trawsfynydd bellach ar y rhestr wrth gefn. Nodwyd nad oedd unrhyw gyfeiriad yn yr adroddiad at fuddsoddiad ym Meirionnydd heblaw Trawsfynydd, a chrybwyllwyd maes awyr Llanbedr fel safle allweddol i fuddsoddi yn y dyfodol. Cyfeiriwyd at y buddsoddiadau sylweddol a wnaed eisoes gan y Llywodraeth yn Llanbedr, a nodwyd tristwch nad oedd Uchelgais Gogledd Cymru wedi amlygu pwysigrwydd ffordd osgoi Llanbedr i economi'r rhanbarth.

Mynegwyd y farn fod y rhanbarth mor fawr fel nad oedd yr ymadrodd "beth sydd orau i'r rhanbarth" yn golygu llawer i ardaloedd fel de Meirionnydd, gan mai'r ardal honno oedd yn colli pobl ifanc mewn cannoedd i chwilio am waith mewn mannau eraill. Nodwyd bod hyn yn arwain at fewnlifiad pobl hŷn a phwysau cynyddol ar wasanaethau, a phwysleisiwyd felly bod buddsoddiad yn Ne Meirionnydd ac ardaloedd gwledig Gwynedd yn hollbwysig. Mynegwyd y farn mai swyddi yn y dwyrain neu ym Mangor oedd yn gwasanaethu ardaloedd lle'r oedd poblogaeth eisoes yn byw, ond mai'r angen mwyaf oedd am swyddi yn ardaloedd gwledig y rhanbarth. Mewn ymateb, nodwyd:-

- Bod heriau sylweddol wedi bod wrth ddod â phrosiectau ymlaen mewn ardaloedd mwy gwledig o gymharu ag ardaloedd mwy diwydiannol, yn enwedig o ran cyrraedd targedau ynghylch creu swyddi a maint y buddsoddiad.

- Bod trafodaethau'n mynd rhagddynt gyda'r ddwy Lywodraeth er mwyn gweld a oedd modd sicrhau mwy o hyblygrwydd o fewn y rhanbarth i fuddsoddi mewn prosiectau oedd yn edrych ar dwf cynhwysol.

- Bod Uchelgais Gogledd Cymru yn edrych fewn i i gomisiynu darn o waith i greu tystiolaeth i danlinellu'r union bwynt a wnaed am werth creu llai o swyddi mewn ardaloedd gwledig o'i gymharu ag ardaloedd trefol a diwydiannol.

- Bod un ffordd o geisio symleiddio'r broses a'i wneud yn haws i gymunedau a busnesau ledled Gogledd Cymru elwa o arian y Cynllun Twf drwy'r cronfeydd digidol ac ynni, heb orfod cyrraedd yr un lefel o dargedau o ran buddsoddiad a swyddi.

Ynghylch Trawsfynydd, eglurwyd bod newid sylweddol wedi bod o ran yr hyn oedd yn cael ei gynnig yno ers sefydlu'r Cynllun Twf yn y lle cyntaf, a mai hynny oedd y prif reswm dros yr oedi. Pwysleisiwyd bod Uchelgais Gogledd Cymru yn gefnogol iawn i'r cynnig a ddatblygwyd gan Wynedd ar gyfer y ganolfan yn Nhrawsfynydd, a bod y safle'n un strategol o bwys nid yn unig i Wynedd ond i Ogledd Cymru gyfan. Nodwyd bod safle Trawsfynydd yn gyfle i newid y naratif o fod yn safle oedd yn dadgomisiynu ac yn cau i fod yn safle twf, gyda'r potensial i ddenu nifer o fuddsoddiadau i'r dyfodol.

Croesawyd y ffaith fod Cabinet Gwynedd wedi cymeradwyo achos busnes Trawsfynydd. Nodwyd bod proses bellach i'w dilyn i asesu a oedd yr achos busnes yn sefyll i fyny, ac os felly y câi ei gyflwyno i'r is-bwyllgor am benderfyniad. O ran materion trafnidiaeth a ffordd osgoi Llanbedr, nodwyd bod swyddogion yn edrych ar y materion hyn ac yn trafod gyda'r Llywodraeth. Pwysleisiwyd ei bod yn bwysig fod y pwyntiau hyn yn cael eu codi'n rheolaidd gan Arweinydd y Cyngor yng nghyfarfodydd y pwyllgorau a gyda swyddogion y Llywodraeth.

Ynglŷn â thrafnidiaeth, cyfeiriwyd at y ffaith fod y Cynllun Twf wedi cyfrannu at gynllun trafnidiaeth yn ardal Sir y Fflint. Gofynnwyd a ellid rhoi pwysau ar y Cynllun Twf i gyfrannu at ffordd osgoi Llanbedr. Nodwyd bod Ken Skates AS, Ysgrifennydd y Cabinet dros Drafnidiaeth a Gogledd Cymru, wedi nodi y byddai'r ffordd osgoi yn costio tua £55 miliwn ac ei fod yn disgwyl i'r Cyd-bwyllgor Corfforedig gyfrannu'r swm hwnnw. Mynegwyd y farn y byddai hynny'n anodd iawn, ond y gallai denu cyllid o wahanol ffynonellau helpu i gyrraedd y cyfanswm, a byddai cyfraniad o'r Cynllun Twf yn gymorth sylweddol.

Mewn ymateb, nododd Arweinydd y Cyngor bod y pwyntiau hynny'n cael eu gwneud yn gyson yng nghyfarfodydd y Bwrdd Uchelgais. Tynnwyd sylw at y ffaith fod llinell Reilffordd y Cambrian, yn ogystal â'r brif reilffordd ar hyd yr arfordir, yn hanfodol i'r ardal ac i ogledd Cymru. Mynegwyd cefnogaeth i'r pwyntiau ynghylch Llanbedr, a nodwyd ei bod eisoes wedi gwahodd y pum arweinydd cyngor arall i ymweld â Llanbedr. Pwysleisiwyd nad oedd dim yn gwneud yr achos yn gryfach na gweld y sefyllfa yn lleol, a'r gwahaniaeth economaidd y gallai'r cynllun ei wneud. Cadarnhawyd bod gwahoddiad eisoes wedi ei ymestyn i'r Bwrdd Uchelgais a'r Cyd-bwyllgor Corfforedig i ymweld â Llanbedr.

Cwestiynwyd faint o arian byddai Gwynedd yn ei dderbyn o holl gyllid Gogledd Cymru. Cwestiynwyd ymhellach faint o sylw a roddid i'r ardaloedd tlotach, megis Blaenau Ffestiniog, wrth wneud penderfyniadau. Tynnwyd sylw at y ffaith fod yr ardal honno ymhlith y tair ardal dlotaf yng Ngogledd Cymru, a gofynnwyd pa fath o fuddsoddiad oedd yn cael ei roi i'r ardal a pham nad oedd mwy o ystyriaeth wedi ei rhoi i'r sefyllfa yno.

Mynegwyd y farn fod Blaenau Ffestiniog ac ardaloedd eraill yng Ngwynedd yn cael eu taro'n galed gan ddiffyg buddsoddiad, a bod diffyg gwaith yn golygu bod pobl ifanc yn gadael ac felly bod yr iaith Gymraeg yn dirywio yn sgil hynny. Mynegwyd y farn, os oedd targedau'r Cynllun Twf yn ymwneud â gwella'r economi i bobl, y dylid rhoi mwy o bwyslais i'r ardaloedd tlotaf. Pwysleisiwyd bod diffyg tegwch o fewn blaenoriaethau presennol y Cynllun Twf. Nodwyd ymhellach nad oedd amserlen glir yn y rhaglen, ond yn hytrach cyfeiriadau at chwarteri yn unig. Mynegwyd y farn bod angen cynllun llawn er mwyn rheoli prosiectau yn gywir ac osgoi i brosiectau oedi fel y gwelwyd nawr. Mewn ymateb, nodwyd:-

- Cytunwyd bod buddsoddi mewn ardaloedd tlotach a mwy difreintiedig yn hollbwysig.
- Bod y ffaith fod prosiect yn dod o ardal fwy difreintiedig neu yn agos i ardal o'r fath yn un o'r ffactorau ehangach a fyddai'n cael eu hystyried wrth asesu budd ac effaith y prosiect.
- Bod rôl Uchelgais Gogledd Cymru yn ymwneud ag ariannu prosiectau nid datblygu prosiectau o'r cychwyn.
- Bod y drws bob amser yn agored i unrhyw brosiectau o unrhyw ardal o Ogledd Cymru, a byddai Uchelgais Gogledd Cymru yn cydweithio i weld a ellid eu hariannu drwy'r Cynllun Twf neu, os na ellid, helpu i ddarganfod ffynonellau ariannu eraill oedd ar gael.
- Bod heriau i ardaloedd o'r fath ddod â phrosiectau ymlaen a fyddai'n ffitio o fewn y fframwaith a osodwyd ar gyfer y Cynllun Twf.
- Bod rhaid i'r is-bwyllgor a'r swyddogion weithredu o fewn y fframwaith a gytunwyd gyda Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU, gan mai eu cyllid hwy sy'n cael ei fuddsoddi.

Cyfeiriwyd at Hwb Economi Wledig Glynllifon a'r cynllun llaeth defaid, gan ofyn a oedd hwnnw bellach wedi ei gwblhau ac, os felly, a fyddai modd cael diweddariad ar ei fudd i'r gymuned mewn cyfarfod yn ddiweddarach yn y flwyddyn. Codwyd hefyd gwestiwn

ynghylch perfformiad carbon isel. Cyfeiriwyd at gyfarfod agored diweddar gyda'r Athro Prysor Williams o Brifysgol Bangor, a mynegwyd y farn y gallai Gwynedd fod wedi colli cyfle drwy beidio ag edrych yn ehangach ar y maes hwn. Mewn ymateb, nodwyd:-

- Bod yr elfen llaethdy defaid wedi ei chymeradwyo o fewn prosiect Glynllifon.
- Bod elfennau pellach yn rhan o'r prosiect, gan gynnwys llaethdy gwartheg.
- Bod cwmni o Ogledd Cymru, OBR, wedi ei benodi i wneud y gwaith llaethdy defaid.
- Bod digwyddiad cychwynnol i lansio'r gwaith wedi ei drefnu ar gyfer yr wythnos ganlynol.
- Bod modd teilwra adroddiad i'r Pwyllgor maes o law i roi diweddariad llawn ar y llaethdy a'r hyn y byddai hynny'n ei olygu i'r diwydiant.
- Bod hwn yn ddatblygiad cyffrous i Ogledd Cymru, ac yn rhywbeth newydd i'r sector amaethyddol.
- Bod y nod yn cynnwys rhannu gwybodaeth gyda ffermwyr yng Ngogledd Cymru am syniadau amrywiol i arallgyfeirio, gan ddarparu opsiynau newydd iddynt ar gyfer ffynonellau incwm amgen mewn cyfnod heriol.

Cwestiynwyd a oedd data neu ffigyrau ar gael ynghylch sefyllfa Gwynedd ynglŷn â'r buddion mae'r Cynllun Twf yn eu dod i'r ardal, ac os oedd targedau i'w gwella er mwyn gwireddu'r uchelgais i'r sir. Mewn ymateb, nodwyd nad oedd targedau wedi eu gosod ar gyfer cynghorau unigol gan fod targedau'r Cynllun Twf ar sail ranbarthol. Pwysleisiwyd mai rhaglen fuddsoddi ranbarthol oedd y Cynllun Twf, a dyna oedd yn cael ei hadrodd yn ôl i'r is-bwyllgor a'r ddwy Lywodraeth.

Ymhelaethwyd bod 24 o'r 49 swydd a grëwyd hyd yma wedi eu creu yng Ngwynedd, gan fod y ddau brosiect cyntaf i gael eu gweithredu o fewn y sir. Eglurwyd bod lefel y dadansoddiad oedd ar gael i'w rannu ar hyn o bryd yn gyfyngedig oherwydd lle'r oedd y prosiectau arni yn eu datblygiad. Nodwyd bod chwe phrosiect erbyn hyn yn cael eu gweithredu, gyda'r mwyafrif ohonynt wrthi'n adeiladu'r cyfleusterau, ac y byddent yn dechrau creu swyddi unwaith y byddent yn weithredol. Pwysleisiwyd y byddai'r data a'r wybodaeth ar gael dros y blynyddoedd nesaf yn cynyddu ac yn caniatáu dadansoddiad mwy manwl, rhywbeth yr oedd sylw parhaus yn cael ei roi iddo ar lefel yr is-bwyllgor.

Cydnabuwyd gan Arweinydd y Cyngor fod Uchelgais Gogledd Cymru yn gweithio o fewn fframwaith a osodwyd gan Lywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru, gyda'r targedau'n cael eu gosod ar lefel ranbarthol. Serch hynny, pwysleisiwyd nad arian y llywodraethau oedd hwn mewn gwirionedd ond arian cyhoeddus, ac felly bod yn rhaid sicrhau bod y buddion yn lledaenu ar draws Gwynedd gyfan. Mewn ymateb, nodwyd:-

- Bod gwybodaeth chwarterol yn cael ei rhyddhau ar sail yr allbynnau.
- Bod modd rhannu'r wybodaeth honno fel y gallai aelodau'r Pwyllgor weld sut yr oedd y data'n newid dros amser.
- Bod modd gofyn i'r tîm ddarparu gwybodaeth fwy penodol, er enghraifft faint o'r swyddi hynny oedd yng Ngwynedd, fel bod y wybodaeth ar gael i'r aelodau.
- Bod rhaglenni ar gael i gefnogi busnesau i edrych ar drosi carbon ac y gellid rhannu'r manylion.

Cwestiynwyd pa wahaniaeth y byddai'r etholiad yng Nghymru yn ei wneud i Uchelgais Gogledd Cymru. Cwestiynwyd ymhellach a oedd unrhyw gydweithio rhwng gogledd a chanolbarth Cymru, gan nodi bod trigolion Meirionnydd yn aml yn teimlo eu bod yn nes at Ganolbarth Cymru na Gogledd Cymru, ac felly nad oeddent yn cael unrhyw fudd o'r bartneriaeth ogleddol. Mynegwyd rhwystredigaeth fod popeth yn ymddangos i fynd tua'r

A55 a Chaernarfon, a gofynnwyd a oedd unrhyw gydweithrediad rhwng de a chanolbarth yn y Cynllun Twf. Codwyd bryderon am allfudo pobl ifanc o Wynedd, am y gostyngiad yn niferoedd disgyblion mewn ysgolion a'r bygythiad i'r Gymraeg o ganlyniad. Pwysleisiwyd na fyddai modd cynnal y Gymraeg heb sicrhau gwaith i bobl ifanc y sir.

Mynegwyd pryder ynghylch yr agenda sero net, gan fynegi barn ei fod yn gwneud mwy o niwed na lles i fusnesau. Mynegwyd y farn bod digon o dyrbinau gwynt yn yr ardal eisoes ac nad oedd eisiau gweld rhagor rhag i'r ardal gael ei diwydiannu yn ormodol. Mynegwyd y farn nad oedd adrannau cynllunio ac economi yn gweithio'n ddigon da gyda'i gilydd, gydag economi yn cefnogi rhywbeth ac yna cynllunio yn gwrthwynebu'r un datblygiad.

Nododd Arweinydd y Cyngor ei bod yn codi pwyntiau ynglŷn a de Gwynedd yn gyson. Eglurwyd bod y darlun o ecosystem economaidd lle mae ffyniant yn ardaloedd y dwyrain yn dod â buddion i ardaloedd y gorllewin drwy swyddi y gellir eu cyrraedd trwy rwydwaith cludiant cyhoeddus yn annheg ac yn anymarferol i ardaloedd fel Pen Llŷn a Meirionnydd. Pwysleisiwyd bod angen bod yn bragmatig a cheisio cael y gorau allan o'r Cynllun Twf presennol. Cyfeiriwyd at gynllun Arfor gan Lywodraeth Cymru, gan fynegi'r farn y gallai'r fframwaith hwnnw gyd-fynd yn well ag ardaloedd gwledig a Chymraeg eu hiaith. Nodwyd y byddai'r cynllun hwnnw'n debygol o gael mwy o sylw yn y dyfodol. Mewn ymateb, nodwyd:-

- Bod Uchelgais Gogledd Cymru yn barod i weithio gydag unrhyw Lywodraeth newydd.

- Bod dim newid i'r Cynllun Twf a gytunwyd yn 2020, er gwaethaf y newidiadau a fu eisoes yn Llywodraeth y DU ers hynny.

- Bod Uchelgais Gogledd Cymru yn gweithio'n agos iawn gyda Chynllun Twf Canolbarth Cymru, a bod llawer o'r heriau a wynebwyd ganddynt yn debyg i'r rhai a wynebwyd yng ardaloedd gwledig gogledd Cymru.

- Bod cydweithio wedi digwydd rhwng y ddau gorff er mwyn sicrhau cyllid 'Innovate UK' ar gyfer prosiect 'Launchpad'.

- Bod cyfleoedd o fewn yr agenda sero net i greu sgiliau a swyddi gwerth uchel a allai gadw pobl ifanc yn y rhanbarth.

- Bod gwaith yn mynd rhagddo gyda phartneriaid megis Partneriaeth Sgiliau Gogledd Cymru, nid yn unig i greu swyddi ond hefyd i hyfforddi pobl ifanc ac i sicrhau bod pobl ifanc yn ymwybodol o'r cyfleoedd sydd ar gael yn economi'r rhanbarth.

- Bod pobl ifanc yn debygol o adael i gael profiadau newydd, boed dramor neu dros y ffin, ond bod eu denu'n ôl yn bwysig.

Ynglŷn â phrosiect 'Launchpad', nodwyd bod y prosiect yn waith ar y cyd gyda Tyfu Canolbarth Cymru, Prifysgol Aberystwyth ac M-SParc. Eglurwyd mai'r nod oedd meithrin arloesedd o fewn y clwstwr amaeth-bwyd a thechnoleg yn y gogledd a'r canolbarth, a galluogi cwmnïau bach yn y ddau ranbarth i ddatblygu, meithrin syniadau a chryfhau er mwyn eu galluogi nhw i ddenu mwy o arian gan ffynonellau cyllid gan gyrff megis *UK Research and Innovation* (UKRI). Cadarnhawyd bod y prosiect wedi bod yn rhedeg ers dros flwyddyn ac yn parhau'n gryf, gyda digwyddiad wedi ei drefnu yn Aberystwyth ar ddechrau mis Mawrth.

Pwysleisiwyd y dylai'r prosiect Trawsfynydd symud oddi ar y rhestr wrth gefn. Gofynnwyd am esboniad pellach ynglŷn â'r ffigyrau swyddi newydd o fewn yr adroddiad a swyddi sydd wedi eu diogelu. Holwyd a oedd modd cynnwys sylwadau gan arolwg allanol gan y ddwy Lywodraeth yn yr adroddiadau chwarterol. Cwestiynwyd ymhellach a oedd modd cynnwys data cymharol ynghylch nifer y swyddi a grëwyd mewn

rhanbarthau eraill yng Nghymru er mwyn gosod y sefyllfa mewn cyd-destun. Mewn ymateb, nodwyd:-

- Dim ond swyddi parhaol oedd yn cael eu cyfrif o fewn targedau'r Llywodraeth, sef 49 swydd.
- Bod y swyddi adeiladu yn ychwanegol at y swyddi parhaol a nodwyd, a'u bod yn swyddi pwysig ond nad oeddent yn rhan o'r targedau swyddogol.
- Bod swyddi a ddiogelwyd hefyd yn faes o ddiddordeb ond nad oedd hynny'n rhan o dargedau'r Llywodraeth.
- Bod diffiniad tynn iawn gan Lywodraeth y DU o beth yn union oedd 'swyddi a ddiogelwyd', sef y byddai'n rhaid i swydd fod mewn perygl o ddiflannu o fewn 12 mis er mwyn cael ei chyfrif.
- Bod rhesymau technegol yn ei gwneud yn anodd i fusnesau neu gyrff megis prifysgolion gadarnhau hynny'n ffurfiol.
- Bod yn ofynnol cynnal proses wirio fanwl hyd yn oed pe byddai prosiect yn adrodd fod swyddi wedi eu diogelu, er mwyn sicrhau ei fod yn cyd-fynd â diffiniad Llywodraeth y DU.
- Bod pedwar cynllun twf yng Nghymru, a'u bod oll yn adrodd yn rheolaidd i'w byrddau eu hunain, gyda'r wybodaeth ar gael yn gyhoeddus ar eu gwefannau.
- Bod modd rhannu dolenni i'r gwefannau hynny, ond nodwyd na fyddai'n briodol i Uchelgais Gogledd Cymru ailadrodd na dehongli'r data hwnnw yn ei hadroddiadau ei hun.

Cyfeiriwyd at anghysondeb o fewn yr adroddiad sy'n ymwneud â'r prosiect 'Anturiaethau Cyfrifol', gan ofyn am gadarnhad a yw'r elfen e-fws yn parhau i fod yn elfen o'r prosiect. Mewn ymateb, cadarnhawyd nad yw'r elfen e-fws bellach yn rhan o'r cynllun ac y byddai'r dogfennau yn cael eu cywiro i ddangos hyn maes o law.

Cwestiynwyd, o safbwynt ymrwymiad i swyddi o ansawdd uchel, faint o'r swyddi fyddai ar gontractau oriau sero o fewn y prosiect 'Anturiaethau Cyfrifol'. Mewn ymateb, nodwyd:-

- Bydd y wybodaeth yn cael ei mireinio'n fanylach unwaith y byddai achos busnes llawn yn cael ei gyflwyno i'r Bwrdd.
- Bod trosolwg manwl o natur y swyddi, gan gynnwys y trefniadau contractio, yn cael ei geisio bryd hynny.
- Bod hynny'n sail i'r is-bwyllgor benderfynu a ddylai'r buddsoddiad fynd rhagddo.
- Bod bwriad y prosiect yn cynnwys ymestyn y tymor twristiaeth a chreu mwy o swyddi drwy gydol y flwyddyn.
- Bod 'Zip World' wedi ymrwymo i brosiect Academi Croeso Cymru, a fyddai'n creu rhagor o gyfleoedd prentisiaethau.
- Bod gwaith wedi mynd rhagddo gyda chymunedau lleol i ddarparu mwy o gyfleoedd drwy rannu cyflogaeth, academi bellach a chydweithio ag ysgolion lleol.
- Byddai'r manylion yma i gyd yn cael eu cynnwys yn yr achosion busnes er mwyn asesu ansawdd y swyddi a gaiff eu creu.

Nodwyd gan yr aelod ei bod yn deall bod canran y contractau sero oriau efallai mor uchel ag 80%. Mewn ymateb, nodwyd bod gwybodaeth sy'n deillio o'r achos busnes

amlinellol yn awgrymu bod o gwmpas 50% o'r swyddi a grëwyd yn debygol o fod yn swyddi contract sero oriau.

**PENDERFYNWYD**

1. **Derbyn yr adroddiad a nodi'r amrywiaeth eang o sylwadau a wnaethpwyd, gan fynegi anhapusrwydd bod rhai o'r cynlluniau yn araf i aeddfedu ac ynglŷn â'r cydbwysedd rhwng buddsoddiad gwledig a threfol.**
2. **Bod y Pwyllgor yn derbyn adroddiad ar brosiectau Canolfan Gwyddoniaeth Trawsfynydd a Hwb Economi Gwledig Glynllifon cyn gynted â phosibl.**
3. **Gofyn am amlinelliad o gost y Cynllun Twf i Gyngor Gwynedd a'r deilliannau i Wynedd o ran swyddi o ansawdd ac yn arbennig mewn ardaloedd difreintiedig.**
4. **Gofyn bod adroddiadau cynnydd i'r dyfodol yn cynnwys mwy o fanylder o ran y swyddi sydd wedi eu creu yn benodol yng Ngwynedd gan gynnwys y math o gontractau.**

## 6. ARDOLL YMWELWYR

Cyflwynodd Aelod Cabinet Economi a Chymuned yr adroddiad gan nodi bod twristiaeth a'r economi ymweld yn ddiwydiant pwysig iawn yng Ngwynedd. Eglurwyd, fel cyd-destun, fod nifer o fodelau a rhagdybiaethau yn cael eu defnyddio i fesur yr economi ymweld, ond bod sicrhau data dibynadwy ar lefel Gwynedd wedi bod yn hynod heriol gan nad oedd y data hwnnw'n bodoli yn y modd y byddid yn ei ddymuno.

Nodwyd bod y model STEAM, sef Scarborough Tourism Economic Activity Monitor, a ddefnyddir yn aml, yn amlygu'r ystadegau diweddar a ganlyn ar gyfer Gwynedd: effaith economaidd o £1.78 biliwn; 7.75 miliwn o ymwelwyr; 24.9 miliwn o ddyddiau ymweld; cyfanswm cyflogaeth o 17,600; bron i 4 miliwn o ymwelwyr dros nos; a bron i 20 miliwn o ddiwrnodau aros. Pwysleisiwyd bod hyn yn gyfraniad sylweddol iawn i'r economi, ond cydnabuwyd hefyd fod ymwelwyr yn creu heriau mewn rhai rhannau o'r sir, gan arwain at bwysau ychwanegol ar wasanaethau'r Cyngor, yr amgylchedd, yr iaith a'r diwylliant, a'r cymunedau.

Eglurwyd mai dyna oedd y rheswm dros fabwysiadu Cynllun Economi Ymweld Cynaliadwy Gwynedd ac Eryri 2035 er mwyn sicrhau bod yr economi ymweld yn gynaliadwy yn yr ardal. Nodwyd bod data o'r Arolwg Teithwyr Rhyngwladol ac o'r Arolwg Twristiaeth Prydain Fawr, sydd wedi eu seilio ar sampl lai o bobl na STEAM, yn dangos gwerth llawer is i'r sector ymwelwyr na'r hyn a ddangosir gan STEAM.

Nodwyd bod y Cyngor wedi bod yn ystyried y posibilrwydd o gyflwyno ardoll ers nifer o flynyddoedd, gyda gwaith ymchwil ar elwa twristiaeth wedi ei gwblhau yn 2018 yn amlygu'r ardoll fel ffynhonnell a allai gynhyrchu incwm sylweddol i'w ail-fuddsoddi yn yr economi ymweld. Nodwyd bod y Cabinet yn y gorffennol wedi mynegi cefnogaeth i gyflwyno deddfwriaeth i sefydlu ardoll ymwelwyr yng Nghymru. Pwysleisiwyd yn glir, fodd bynnag, nad oedd unrhyw benderfyniad wedi ei wneud hyd yma ynghylch cyflwyno ardoll yng Ngwynedd, a bod y drafodaeth gerbron yn cynrychioli'r cam cyntaf yn y broses yn unig.

Nodwyd bod y Cyngor yn cydweithio'n agos gyda Chonwy ac Ynys Môn ar y gwaith ymchwil i'r asesiadau effaith ac wrth ystyried cyflwyno ardoll. Eglurwyd bod yr asesiad effaith economaidd yn amlygu y gallai'r effaith ar swyddi, yn y sefyllfa waethaf, olygu colli 50 swydd, neu, yn y sefyllfa orau, greu 21 swydd. Nodwyd ymhellach y gallai sefydlu ardoll gynhyrchu rhwng £2.4 miliwn a £2.8 miliwn o refeniw blynyddol i Wynedd. Ymhelaethwyd, pe defnyddid data STEAM yn hytrach, y byddai'r ffigyrau oddeutu pedair gwaith yn uwch, gyda mwy o effaith ar swyddi a photensial i godi hyd at £12 miliwn drwy'r ardoll. Mynegwyd y farn bod y swm a godid yn debygol o fod yn uwch na'r ffigwr ceidwadol o £2.5 miliwn a nodwyd.

Eglurwyd, pe byddai cefnogaeth gan y Cyngor Llawn i symud ymlaen i ymgynghoriad, y byddai'r weithdrefn a osodir yn y Ddeddf yn glir, ac y byddai'n rhaid dilyn egwyddorion ymgynghori cyhoeddus. Nodwyd y byddai'r dystiolaeth a gesglir yn llywio'r asesiadau effaith terfynol a gyflwynir i'r Cyngor Llawn.

Nodwyd bod y Ddeddf yn amlinellu'n glir y meysydd y gallai incwm yr ardoll gael ei fuddsoddi ynddynt, ynghyd â'r trefniadau ar gyfer arwain ar hynny. Eglurwyd y byddai angen sefydlu Fforwm Partneriaeth Ardoll ar lefel awdurdod lleol, a bod y cynnig drafft yn awgrymu y dylid buddsoddi'r incwm mewn prosiectau a gweithgareddau a fyddai'n gyson ag egwyddorion economi ymweld gynaliadwy Gwynedd ac Eryri. Cyfeiriwyd at enghreifftiau posibl o fuddsoddiadau, gan gynnwys defnydd diwylliannol, y Gymraeg, gwarchod a hyrwyddo'r amgylchedd, isadeiledd a chyfleusterau lleol, cefnogaeth i fusnesau a chymunedau, ymgyrchoedd marchnata a chyfathrebu. Nodwyd mai'r meysydd hyn oedd enghreifftiau o'r math o fuddsoddiad a allai ddeillio o'r ardoll, ond mai'r Fforwm Partneriaeth Ardoll fyddai'n argymell blaenoriaethau i'w hystyried wedyn gan y Cabinet.

Pwysleisiwyd mai dechrau'r daith oedd y drafodaeth bresennol o ran yr ardoll ymwelwyr. O ystyried yr hinsawdd economaidd, y toriadau di-ben-draw, a phwysigrwydd sicrhau economi ymweld gynaliadwy, nodwyd bod angen ystyried hyn fel un opsiwn posibl ar gyfer y dyfodol.

Yn ystod y drafodaeth, cyflwynwyd y sylwadau a ganlyn:-

Mynegwyd pryder nad oedd y term 'ardoll ymwelwyr' yn gwbl briodol, gan y byddai trigolion Gwynedd eu hunain yn debygol o gael eu heffeithio pe byddent yn dewis mynd ar wyliau neu wersylla o fewn y sir. Tynnwyd sylw at yr angen i osgoi anfon neges negyddol at ymwelwyr a allai eu hannog i fynd i ardaloedd eraill. Holwyd sut y byddai'r cynllun yn cael ei reoli'n ymarferol, pwy fyddai'n gyfrifol am sicrhau cydymffurfiaeth lawn gan fusnesau, a sut y gellid mesur gwir gost a cholled gudd gosod treth ychwanegol ar y sector twristiaeth. Cyfeiriwyd yn benodol at y posibilrwydd y gallai mwy o bobl droi at wersylla gwyllt neu aros mewn faniau yn hytrach na defnyddio llety cofrestredig. Pryderwyd y gallai'r ardoll arwain at gynnydd yn nifer yr ymwelwyr yn penderfynu aros am y dydd yn hytrach nag aros dros nos, ac felly gael effaith negyddol ar y sector. Cwestiynwyd ymhellach am gostau gweinyddol y trefniadau i fusnesau bychain. Mewn ymateb, nodwyd:-

- Bod y trefniadau gweinyddol cenedlaethol yn gyfrifoldeb i Awdurdod Cyllid Cymru, ac y byddai'n gweinyddu'r drefn gofrestru statudol ar gyfer darparwyr llety ledled Cymru.
- Bod pob busnes llety yn gorfod cofrestru o fis Medi ymlaen, os oes ardoll ai peidio, a bod dirwyon i'r rhai na fyddent yn cofrestru.
- Bod Awdurdod Cyllid Cymru eisoes wedi dechrau gwaith cyfathrebu ac ymgysylltu ledled Cymru i godi ymwybyddiaeth ymysg busnesau am y gofrestr newydd.
- Bod rhai busnesau yng Ngwynedd eisoes yn treialu'r system gofrestru ar ran Awdurdod Cyllid Cymru, gyda'r nod o fireinio'r drefn cyn ei gweithredu'n ffurfiol.
- Bod risg wirioneddol y gallai rhai ymwelwyr droi at wersylla gwyllt, dewis aros mewn ardaloedd cyfagos neu ddewis ymweliadau dydd yn hytrach nag aros dros nos, a bod angen bod yn agored i fonitro'r sefyllfa honno pe bai'r ardoll yn cael ei chyflwyno.
- Bod cynlluniau fel Arosfan eisoes yn rhan o'r ymateb i bwysau cartrefi modur mewn rhai lleoliadau.
- Bod y drefn reoleiddio a gorfodi mewn perthynas â gwersylla gwyllt eisoes yn digwydd drwy'r Adran Amgylchedd.

- Bod Awdurdod Cyllid Cymru yn ceisio gwneud y drefn mor syml â phosibl i fusnesau, gan gynnwys cydweithio â llwyfannau megis Airbnb a Booking.com er mwyn integreiddio'r system a lleihau'r baich gweinyddol.

- Bod modd i fusnesau adrodd i Awdurdod Cyllid Cymru naill ai'n chwarterol neu'n flynyddol.

- Bod Gwynedd yn cydweithio â Chonwy ac Ynys Môn er mwyn ceisio sicrhau trefn gyson i fusnesau yn y tair sir.

Cwestiynwyd ynghylch ymarferoldeb plismona safleoedd gwersylla a charafanau. Mynegwyd ansicrwydd ynghylch sut y gellid sicrhau cydymffurfiaeth lawn mewn marchnad fwy gwasgaredig.

Holwyd pa warchodaeth oedd mewn lle i sicrhau na fyddai'r un anawsterau gweithdrefnol a gododd mewn perthynas ag Erthygl 4 yn codi eto. Cwestiynwyd pa siroedd eraill yng Nghymru oedd eisoes ar y blaen neu'n bwriadu symud ymlaen gyda'r ardoll. Cwestiynwyd ymhellach a oedd modd eithrio neu wahaniaethu rhwng categorïau o fusnesau, gan godi pryder penodol am fusnesau bach iawn a allai wynebu baich gweinyddol anghymesur o gymharu â safleoedd mawr. Pwysleisiwyd egwyddor ac amcan yr ardoll i sicrhau bod unrhyw incwm yn cael ei ddefnyddio i fynd i'r afael â sgil-effeithiau twristiaeth yn hytrach na'i ddefnyddio i ehangu'r broblem. Mewn ymateb, nodwyd:-

- Bod y Cyngor yn gweithio'n agos gyda Chonwy ac Ynys Môn, ac yn dilyn canllawiau Llywodraeth Cymru yn fanwl wrth baratoi'r gwaith hwn.

- Bod gwaith asesu effaith economaidd eisoes wedi'i gomisiynu er mwyn sicrhau bod y sylfaen dystiolaeth mor gadarn â phosibl cyn symud ymlaen.

- Bod Cyngor Caerdydd eisoes wedi penderfynu symud ymlaen i'r cam ymgynghori ac felly mai hi oedd y sir gyntaf yng Nghymru i wneud hynny.

- Bod Gwynedd yn yr ail wedd gyda Chonwy ac Ynys Môn, ac yn gobeithio cyflwyno adroddiadau i'w cynghorau llawn er mwyn ceisio caniatâd i ymgynghori.

- Bod rhai siroedd eraill wedi nodi nad oeddent yn bwriadu bwrw ymlaen am y tro, tra bod eraill yn aros i ddysgu gwersi o'r hyn a fydd yn digwydd yn y siroedd cyntaf.

- Bod trafodaethau rheolaidd yn digwydd gyda swyddogion siroedd eraill yng Nghymru sy'n ystyried y mater.

- Bod y Ddeddf ei hun yn diffinio'n glir pa fathau o lety ac arosiadau sy'n dod o fewn cwmpas yr ardoll, ac nad oedd llawer o le i greu eithriadau lleol ychwanegol yn seiliedig ar faint busnes.

- Bod pob arhosiad taledig mewn llety ymwelwyr yn dod o fewn y drefn oni bai ei fod yn un o'r eithriadau penodol a nodir yn y ddeddfwriaeth.

- Bod Awdurdod Cyllid Cymru wedi bod yn ymgynghori â busnesau mawr a bach er mwyn ceisio sicrhau system mor syml â phosibl.

- Bod gweithdai eisoes wedi'u cynnal, gan gynnwys sesiwn yn Llandudno cyn y Nadolig, er mwyn rhoi eglurhad pellach i fusnesau.

- Bod pecyn cymorth a chanllawiau pellach ar fin cael eu cyhoeddi i gefnogi busnesau.

- Bod unrhyw newid o'r math hwn yn creu gwaith ychwanegol i fusnesau yn y cyfnod pontio a bod angen i'r Cyngor, pe bai'n dymuno symud ymlaen yn y dyfodol, ystyried sut y gellid cynorthwyo busnesau lleol i ddeall y trefniadau a gwneud y defnydd gorau o'r systemau newydd.

Cwestiynwyd pryd ac ym mha ffordd y byddai polisi clir ar ddefnyddio'r incwm yn cael ei lunio. Cwestiynwyd a fyddai manylion pellach ar flaenoriaethau gwario ar gael cyn neu ar ôl gweithredu unrhyw ardoll. Mewn ymateb, nodwyd:-

- Bod canllawiau Llywodraeth Cymru yn mynnu bod adroddiad yn cael ei lunio cyn mynd allan i ymgynghori, ac y byddai'n rhaid i'r adroddiad hwnnw amlinellu cynnig cychwynnol ar gyfer defnydd yr incwm.
- Bod drafft cychwynnol o'r cynnig hwnnw eisoes wedi'i baratoi a'i rannu fel sail i'r drafodaeth.
- Bod y drafft hwnnw'n debygol o newid a datblygu dros amser yn sgil ymgysylltu pellach a chanlyniadau'r ymgynghoriad.
- Bod angen sefydlu Fforwm Partneriaeth Ardoll pe bai'r ardoll yn cael ei chyflwyno, ac y byddai'n gyfrifol am argymell blaenoriaethau gwario i'r Cabinet.
- Bod yn rhaid neilltuo'r incwm i'r meysydd a ganiateir gan y Ddeddf, sef rheoli a gwella cyrchfannau, gan gynnwys lliniaru effaith ymwelwyr, hybu'r Gymraeg, cefnogi twf economaidd cynaliadwy, a darparu neu wella seilwaith a gwasanaethau perthnasol.
- Bod gwaith pellach i bennu'r blaenoriaethau mwy penodol yn rhan o'r ymgynghoriad a'r camau nesaf.

Cwestiynwyd a fyddai Aelodau'r Cyngor yn cael digon o wybodaeth am ddeddfwriaeth a'i goblygiadau cyn i'r mater gyrraedd y Cyngor Llawn, gan dynnu sylw at y ffaith fod Treth ar Werth (TAW) yn gymwys ar yr ardoll a bod pwerau yn y ddeddfwriaeth i Lywodraeth Cymru newid cyfraddau'r ardoll a chaniatáu i awdurdodau lleol godi premiwm ar yr ardoll. Mewn ymateb, nodwyd:-

- Bod bwriad i drefnu sesiwn friffio i'r Aelodau cyn cyfarfod y Cyngor Llawn er mwyn egluro cefndir a goblygiadau'r Ddeddf.
- Bod trafodaethau wedi bod rhwng Llywodraeth Cymru a Thrysorlys Llywodraeth y DU ynghylch TAW, gyda dadl glir gan Lywodraeth Cymru na ddylai'r ardoll fod yn destun TAW.
- Bod safbwynt presennol y Trysorlys yn glir, sef bod y taliad yn ddarostyngedig i TAW.
- Bod trafodaethau pellach yn dal i fynd rhagddynt rhwng Llywodraeth Cymru, Llywodraeth yr Alban a'r Trysorlys ar y mater hwn.
- Bod y ddeddfwriaeth yn caniatáu gosod premiwm lleol, ond fod y drefn bellach wedi newid fel na ellir gweithredu hynny heb ymgynghoriad â Llywodraeth Cymru.

Codwyd pryderon am garafanau modur yn aros mewn lleoedd amhriodol, gan gyfeirio'n benodol at sefyllfaoedd lleol lle bu cerbydau'n aros o flaen tai ac ar draethau megis Morfa Bychan. Holwyd a oedd y goblygiadau hyn wedi cael eu hystyried, ac a oedd unrhyw waith yn mynd rhagddo i gryfhau'r pwerau neu'r trefniadau rheoli yn y maes hwn. Mewn ymateb, nodwyd bod hwn yn enghraifft glir o'r math o bwysau lleol y gellid ystyried ei flaenoriaethau a'i hariannu drwy incwm yr ardoll. Pwysleisiwyd nad oes modd ymateb yn ddigonol i nifer o'r problemau hyn o fewn adnoddau presennol y Cyngor, ac y byddai cael ffynhonnell incwm benodol yn rhoi cyfle i dargedu'r tensiynau sy'n codi mewn cymunedau a'r meysydd lle mae twristiaeth yn creu pwysau ychwanegol. Nodwyd ymhellach y byddai'r arfordir yn debygol o fod ymhlith y prif feysydd a fyddai angen sylw pe bai'r ardoll yn cael ei chyflwyno.

Pwysleisiwyd yr angen i gael y ffeithiau'n glir cyn symud ymlaen at ymgynghoriad cyhoeddus, yn benodol ynglŷn â faint o incwm y byddai'r ardoll yn ei gynhyrchu, pwy yn

union fyddai'n gorfod talu, a sut y byddai modd sicrhau eglurder ynghylch effaith y cynllun. Codwyd pryder penodol ynghylch llety Airbnb, gan ofyn pwy fyddai'n cadw golwg arnynt a sut y byddai modd gwirio cydymffurfiaeth. Tynnwyd sylw at wersylla gwyllt a chartrefi modur, gan nodi fod y problemau hyn yn arbennig o amlwg mewn rhai mannau, yn enwedig ger llynnoedd. Mynegwyd pryder ynghylch faniau'n aros dros nos mewn cilfannau, a holwyd pwy fyddai'n gyfrifol am reoli a gorfodi yn y sefyllfaoedd hyn. Holwyd faint fyddai cost gweinyddu'r ardoll i fusnesau, a faint o'r incwm a fyddai wedyn yn cael ei ddychwelyd er budd y sector twristiaeth. Mynegwyd y farn y dylai unrhyw incwm gael ei glustnodi ar gyfer twristiaeth yn unig, er mwyn gwella cyfleusterau i ymwelwyr ac er mwyn hysbysebu twristiaeth yn yr ardal. Mynegwyd gwrthwynebiad i'r angen i dalu TAW ar yr ardoll. Codwyd pryder ynglŷn â'r posibilrwydd na fyddai Powys yn codi ardoll, ac y gallai ymwelwyr ddewis aros yno ac yna ymweld â de Meirionnydd fel ymwelwyr dydd, gan adael Gwynedd yn wynebu'r un pwysau ond heb yr incwm cyfatebol. Mewn ymateb, nodwyd:-

- Bod yr asesiad effaith economaidd yn cynrychioli'r data gorau oedd ar gael ar hyn o bryd, er y cydnabuwyd ei bod yn anodd iawn cael data cadarn ar lefel Gwynedd.

- Bod y broses ymgynghori yn debygol o helpu i gryfhau'r dystiolaeth ymhellach, gan y byddai arolwg yn cael ei gynnal ymysg trigolion, busnesau ac ymwelwyr i Wynedd.

- Bod y Ddeddf yn glir ynghylch pwy sydd yn gorfod talu a phwy sydd wedi'u heithrio, a bod nifer yr eithriadau yn gymharol fach.

- Bod y bwriad yn genedlaethol i wneud y drefn mor syml â phosibl fel na fyddai'n rhaid i fusnesau herio unigolion na gofyn am dystiolaeth wrth i bobl gyrraedd i aros.

- Bod plant dan 18 oed wedi'u heithrio os ydynt yn aros mewn hosteli neu ar safleoedd wersylla, ond y byddent yn gorfod talu mewn gwestai.

- Bod y system gofrestru genedlaethol yn mynd i'w gwneud yn orfodol i bob darparwr llety ymwelwyr gofrestru, a bod hynny'n cynnwys Airbnb.

- Bod y trefniant hwnnw'n ymgais i fynd i'r afael â'r diffyg gwybodaeth presennol ynghylch lleoliad a nifer yr Airbnbs yng Ngwynedd ac yng Nghymru.

- Bod disgwyl felly y byddai'n haws gwybod ble y mae'r Airbnbs ac a ydynt wedi cofrestru, ac y byddent wedyn yn gweinyddu'r ardoll drwy ap neu wefan Airbnb pe bai'r ardoll yn dod i rym.

- Bod risg y gallai rhai ymwelwyr ddewis aros ym Mhowys yn hytrach nag yng Ngwynedd er mwyn osgoi'r ardoll, ond yn bersonol nad yw ardoll yn ffactor sydd yn anghymell rhag aros mewn ardal. Nodwyd y byddai angen monitro'r sefyllfa'n ofalus iawn.

Nodwyd bod y pwynt ynghylch gwersylla gwyllt a defnydd o gilfannau yn un teg, ac y byddai angen monitro'r maes hwnnw'n ofalus pe bai'r ardoll yn cael ei chyflwyno yng Ngwynedd. Cyfeiriwyd at gynllun peilot Arosfan sydd eisoes yn llwyddo i helpu i daclo'r broblem yma. Awgrymwyd y gellid trafod ymhellach gyda'r Adran Amgylchedd er mwyn cael mwy o ffigyrau am ddefnydd cilfannau a nifer yr achosion gorfodaeth sydd wedi bod o fewn cilfannau'r sir.

Cwestiynwyd, o safbwynt Parc Cenedlaethol Eryri, pwy fyddai'n derbyn yr ardoll os byddai rhywun yn aros o fewn ardal y Parc, a sut y byddai modd sicrhau bod y Parc yn cael cyfran deg o'r incwm. Pwysleisiwyd mai'r Parc Cenedlaethol oedd yr ardal lle'r oedd llawer iawn o'r pwysau o ganlyniad i twristiaeth yn digwydd, a gofynnwyd sut y gellid sicrhau y byddai'n derbyn yr hyn oedd yn briodol. Mewn ymateb, nodwyd mai Cyngor Gwynedd fyddai'r awdurdod cyfrifol yn yr achos hwn, ac felly mai'r Cyngor fyddai'n derbyn yr incwm. Eglurwyd y byddai blaenoriaethu'r defnydd o'r incwm yn fater i'r Fforwm Partneriaeth Ardoll, a byddai hynny'n cynnwys cynrychiolaeth o'r Parc.

Cadarnhawyd felly y byddai ganddo lais o amgylch y bwrdd, ac y byddai'r Fforwm Partneriaeth Ardoll yn ceisio adnabod y prif heriau ar gyfer Gwynedd ac Eryri ac yn ceisio gweithio i flaenoriaethu'r meysydd hynny. Nodwyd ei bod yn debygol y byddai cyfran sylweddol o'r incwm yn gorfod cael ei wario mewn ardaloedd o fewn y Parc ac ar hyd yr arfordir.

Mynegwyd cefnogaeth i egwyddor yr ardoll, gan nodi ei bod yn gyffredin mewn rhannau eraill o Ewrop ac nad oedd yn ymddangos yn ormodol o ystyried cost gwyliau yn gyffredinol. Nodwyd bod 'loopholes' yn bodoli o fewn pob cynllun ac bod angen canolbwyntio ar egwyddor yr ardoll. Tynnwyd sylw at y posibilrwydd o ddefnyddio'r incwm i wella bywyd trigolion Gwynedd, cryfhau'r Gymraeg, a rheoli effeithiau twristiaeth yn well. Pwysleisiwyd bod yr ardoll yn gam cadarnhaol ymlaen i sicrhau bod y diwydiant twristiaeth o fudd i Wynedd a'i thrigolion. Holwyd a oedd modd symud amserlen yr ymgynghoriad cyhoeddus gan fod cyfnod yr haf yn gyfnod prysuraf y diwydiant lletygarwch.

Mewn ymateb, nodwyd bod yn rhaid dilyn canllawiau statudol Llywodraeth Cymru o ran hyd ac egwyddorion yr ymgynghoriad. Eglurwyd mai'r bwriad oedd cynnal cymaint â phosibl o sesiynau wyneb yn wyneb cyn dechrau gwyliau'r haf, er mwyn lleihau'r baich ar fusnesau yn eu cyfnod prysuraf. Nodwyd y byddai holiadur ar-lein ac amrywiaeth o ddulliau eraill o ymgysylltu yn rhan o'r broses, ond bod y Cyngor yn ymwybodol iawn o bwysigrwydd amseru'r gwaith yn sensitif.

Cwestiynwyd ynghylch comisiynu cwmni Quod, sef cwmni allanol o du allan i Gymru, i gynnal asesiadau cydraddoldeb ac iaith. Mynegwyd siom na ddefnyddiwyd cwmni lleol neu Gymreig yn hytrach. Cwestiynwyd pa dystiolaeth oedd ar gael o effaith cynlluniau tebyg mewn mannau eraill. Mewn ymateb, nodwyd:-

- Bod y gwaith wedi'i gomisiynu drwy drefniant partneriaeth gyda Chonwy ac Ynys Môn a bod proses gaffael Ynys Môn wedi'i defnyddio yn yr achos yma er mwyn symud ymlaen yn amserol gyda'r asesiadau.
- Bod y cwmni Quod wedi'i ddefnyddio ar sail y trefniant hwnnw, ond nad hwy oedd yn cynnal yr asesiad penodol ar y Gymraeg.
- Bod yr elfennau Cymraeg wedi'u llunio drwy gydweithio gyda swyddogion iaith Cyngor Gwynedd, gan dynnu ar waith mewnol a gwaith ardrawiad iaith gan Lywodraeth Cymru.
- Bod arolwg trigolion wedi'i gynnal ar-lein fis Hydref diwethaf, gyda bron i 1,000 o ymatebion.
- Bod yr arolwg hwnnw wedi cynnwys cwestiynau am effaith twristiaeth yn lleol, cynlluniau megis Arosfan, a safbwyntiau ar yr ardoll.
- Bod arolwg busnesau hefyd wedi'i gynnal yn ddiweddar.
- Bod gweithdai blaenoriaethu gyda phartneriaid Gwynedd ac Eryri wedi cyfrannu at lunio'r darlun lleol.
- Byddai'r wybodaeth yma i gyd yn ychwanegu at y data a geir drwy unrhyw ymgynghoriad ffurfiol yn y dyfodol.
- Bod ymchwil gan Brifysgol Bangor wedi edrych ar weithrediad ardollau mewn saith ardal ryngwladol, gan gynnwys y Balearics, Catalwnia, Gunnison, Gwlad yr Iâ, Jackson Hole, Orange County ac yn yr Eidal.
- Bod yr ymchwil hwnnw'n edrych ar sut y codir yr incwm, ar beth y caiff ei wario, a'i effaith.

- Nad oes ardoll ffurfiol eto mewn unrhyw ran arall o'r DU, ond y bydd Caeredin yn cyflwyno un eleni, ac y bydd hynny'n brofiad pwysig i'w fonitro.

- Bod trefniadau Manceinion a Lerpwl yn debyg o ran egwyddor ond yn seiliedig ar ffi ardaloedd gwella busnes yn hytrach nag ar ardoll ffurfiol.

Pwysleisiwyd yr angen i flaenoriaethu cwmnïau lleol yn y broses gaffael, os yw'n broses mewn partneriaeth â sir arall neu beidio.

Holwyd ynghylch sut y byddai'r eithriadau a'r ad-daliadau yn gweithredu'n ymarferol, yn enwedig mewn perthynas â phobl anabl neu unigolion sy'n ffoi rhag trais yn y cartref. Mynegwyd pryder penodol am y wybodaeth sensitif y byddai'n rhaid ei rhannu mewn rhai achosion, a holwyd a oedd hyder bod y systemau diogelu a'r mecanweithiau cyfathrebu yn ddigon cadarn. Mewn ymateb, nodwyd bod y meini prawf ar gyfer eithrio ac ad-dalu wedi'u gosod yn genedlaethol drwy'r Ddeddf gan Lywodraeth Cymru ac Awdurdod Cyllid Cymru. Eglurwyd mai Awdurdod Cyllid Cymru fyddai'n gweinyddu'r trefniadau ad-dalu, ac y byddai'n rhaid codi'r cwestiwn penodol ynghylch unigolion sy'n ffoi rhag trais yn y cartref ond nad ydynt yn cael eu lletya drwy elusen neu awdurdod lleol. Cydnabuwyd yn glir fod y wybodaeth mewn sefyllfaoedd felly yn hynod sensitif, a phwysleisiwyd y byddai angen trefniadau diogel iawn pe bai'r ardoll yn cael ei chyflwyno. Nodwyd y byddai'r Cyngor yn gorfod gweithio'n agos gydag Awdurdod Cyllid Cymru ar gyfathrebu ac ar sicrhau bod y negeseuon am eithriadau ac ad-daliadau yn cyrraedd y grwpiau perthnasol.

Awgrymwyd y dylid rhoi diweddariadau rheolaidd i Aelodau er mwyn eu cadw'n ymwybodol o ddatblygiadau. Cwestiynwyd a oedd costau rhedeg a gweinyddu'r cynllun wedi'u cynnwys eisoes yn yr amcangyfrifon ariannol. Mewn ymateb, nodwyd:-

- Bod modd rhannu diweddariadau rheolaidd drwy fwletin i'r Aelodau.

- Bod tudalen benodol eisoes wedi'i chreu ar wefan y Cyngor dan yr adran fusnes i roi gwybodaeth am yr ardoll.

- Bod busnesau eisoes yn derbyn diweddariadau drwy'r bwletin busnes.

- Bod Llywodraeth Cymru yn darparu cyllideb ar gyfer sefydlu systemau, cyfathrebu, marchnata a gweinyddu.

- Bod Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i sicrhau na fydd costau gweinyddu'r system yn fwy na 10% o'r incwm a gesglir mewn unrhyw ardal.

Cwestiynwyd a oedd modd codi'r ardoll yn ystod rhai tymhorau yn unig, gan gyfeirio at enghreifftiau tramor lle mae gwahaniaeth rhwng tymor brig a thymor tawel. Mewn ymateb, nodwyd nad yw'r ddeddfwriaeth bresennol yn caniatáu gwahaniaethu tymhorol. Eglurwyd pe bai awdurdod lleol yn mabwysiadu'r ardoll, y byddai'n rhaid ei weithredu drwy gydol y flwyddyn. Cadarnhawyd fod modd rhoi 12 mis o rybudd i ddiddymu'r ardoll pe bai awdurdod lleol yn dymuno gwneud hynny yn y dyfodol.

**PENDERFYNWYD**

1. **Derbyn yr adroddiad gan nodi'r sylwadau.**
2. **Argymell i'r Aelod Cabinet Economi a Chymuned:**
    - **Sicrhau bod ystyriaeth lawn yn cael ei rhoi i'r holl gymhlethdodau sydd ynghlwm â dod â'r ardoll hwn i fodolaeth o'r newydd.**
    - **Os yw'r Cyngor yn penderfynu cyflwyno Ardoll Ymwelwyr:**
        - **Bod ymrwymiad pendant ar sut y bydd yr arian a godir yn cael ei wario gan roi blaenoriaeth i feysydd twristiaeth a chymunedol.**
        - **Bod ymgynghori trylwyr yn digwydd ar draws y sir a gyda phartneriaid perthnasol i ddarganfod blaenoriaethau cymunedol.**
        - **Bod angen bod yn dryloyw efo'r sawl sy'n talu'r dreth ynglŷn â sut gaiff yr arian ei wario.**

- **Bod cyfathrebu ynglŷn ag eithriadau yn effeithiol a sensitif pan bod angen gwneud hynny.**

Dechreuodd y cyfarfod am 10:30 yb a daeth i ben am 2:35 yp

______________________________

Cadeirydd